Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 8 Ebrill 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

---

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:** Dechreuodd y cyfarfod gyda chyfarchion, a chafodd presenoldeb ei gadarnhau.

**2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau:** Ni ddatganodd y Bwrdd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hailddosbarthu, a gwnaed cais i hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cydnabod.

**4. Diweddariad am yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant**

Mae fersiwn terfynol yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant bron yn barod, ac mae wrthi'n cael ei ddiwygio. Mae'r adroddiad wedi'i ganmol am y pwys y mae'n ei roi ar brofiad go iawn, ac am ei argymhellion sydd wedi'u strwythuro yn dda. Mae angen cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg cyn iddo gael ei ddarparu i'r cyhoedd ar y wefan, ac mae trefniadau ar waith i symleiddio cyfieithiadau yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r gymuned ddiogelu cyn iddo gael ei gyfieithu, ond rhaid ei fod ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd. Cafodd ystyriaethau eu codi

ynghylch cyfnod yr etholiad, a chytunwyd i ofyn am arweiniad pellach gan y llywodraeth. Trafodwyd ansawdd gwaith cyfieithu a'r angen i reoli cost cyfieithu, a mynegwyd dymuniad i waith cyfieithu gael ei reoli gan y Bwrdd er mwyn cynnal safonau a chysondeb.

**5. Strategaeth Gyfathrebu a gwefan y Bwrdd Cenedlaethol:** Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch anawsterau wrth symud y wefan, sy'n cael eu datrys heb unrhyw gostau ychwanegol. Mae cyfrifon ebost wedi'u huwchraddio er mwyn gwella diogelwch. Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid ar gyfer y Strategaeth Gyfathrebu yn parhau, a bwriedir ceisio eu cwblhau erbyn diwedd mis Ebrill a'u trafod yn ystod y diwrnod cwrdd i ffwrdd nesaf. Bydd y wefan yn cael ei hailddylunio ar ôl iddi gael ei symud, a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei lywio gan fewnbwn rhanddeiliaid.

**6. Yr Wythnos Diogelu – Cynhadledd:**

Bu'r Bwrdd yn trafod cynlluniau ar gyfer y Gynhadledd Ddiogelu ym mis Tachwedd, a chytunodd i ganolbwyntio ar oedolion a themâu megis profiad go iawn ac esgeulustod. Ystyriwyd bod cydweithio â phartneriaid academaidd a chymorth gan y cyfryngau yn bwysig. Penderfynwyd y dylid llunio thema derfynol a manyleb amlinellol derfynol erbyn diwedd y mis er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n brydlon.

**8. Diweddariad ynghylch y gyllideb:** Mae'r holl daliadau'n ymwneud â'r wefan a thrwyddedau ar gyfer y flwyddyn wedi'u cwblhau, sy'n golygu bod arian ar gael ar gyfer gwelliannau posibl. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn gweithredu dan gyllideb dros dro o £200,000, a disgwylir cadarnhad ffurfiol pan fydd penodiadau gweinidogol wedi'u gwneud.

**9. Diweddariad ynghylch recriwtio:** Rhoddodd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ddiweddariad ynghylch newidiadau i'r aelodaeth, gan nodi'r sawl a oedd wedi ymadael a'r penodiadau newydd a fydd yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf. Mae cynlluniau rhagweithiol wedi'u sefydlu er mwyn cychwyn recriwtio'n gynnar ar gyfer swyddi gwag yn y dyfodol, a fydd yn sicrhau parhad o ran y Bwrdd.

**11. Diweddariad gan y Byrddau Rhanbarthol a rhanddeiliaid:**

Adroddodd y Byrddau Rhanbarthol ynghylch achosion Adolygiadau Ymarfer Plant diweddar, heriau o ran cyllid, a phenodiadau newydd. Trafodwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran y byd academaidd, y llywodraeth a grwpiau iechyd, a phwysleisiwyd yr angen am gydweithio cryfach ac am ddulliau gwell o rannu data. Mae ymdrechion yn parhau yn ardal un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i chwilio am gyllid i sefydlu rôl arwain newydd ym maes camfanteisio.

Parheir i ymgysylltu a chytuno â phartneriaid ynghylch alinio data cenedlaethol am ddiogelu â metrigau diogelu sydd ar gael mewn asiantaethau partner.

**12. Unrhyw fater arall**

**Cyflwyniad y Pum Gwlad ar Ddiogelu Oedolion a Chymariaethau Deddfwriaethol:**

Taflodd dealltwriaeth grŵp y Pum Gwlad oleuni ar wahaniaethau rhwng deddfwriaeth ynghylch diogelu oedolion ac ar fylchau parhaus o ran gweithredu. Bu'r Bwrdd yn trafod yr angen posibl yn y dyfodol i adolygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 oherwydd heriau parhaus, er gwaetha'r uchelgais deddfwriaethol cryf sydd yng Nghymru. Cafodd cymariaethau nodedig eu llunio â Gogledd Iwerddon, ac awgrymwyd y gellid estyn gwahoddiad er mwyn rhannu profiadau o ymarfer yn ystod cynhadledd yn y dyfodol. At hynny, pwysleisiodd trafodaethau'r Bwrdd bwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb rhwng diogelu plant a diogelu oedolion, gan annog cynghreiriau ehangach a mwy o sylw i oedolion agored i niwed, gan gynnwys y sawl sydd ag anableddau.

**Diogelu Oedolion: archwiliad meddygol**

Mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar absenoldeb cynllun archwiliadau meddygol fforensig cenedlaethol ar gyfer oedolion yng Nghymru. Yn y digwyddiad bord gron hwn, pwysleisiodd y cyfranogwyr y rheidrwydd i'r Bwrdd ymgysylltu, gan ystyried gwerth lansio prosiectau peilot. Casgliad y cyfarfod maes o law oedd galw am sefydlu cynllun cenedlaethol a sianelu ymdrechion tuag at sicrhau cyllid ar gyfer prosiect peilot ac adnabod sefydliadau addas a allai gydweithio i hybu'r fenter. Eglurodd y Bwrdd na allai ddarparu cyllid uniongyrchol, ond addawodd yr aelodau y byddent yn parhau i gefnogi'r fenter drwy barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwnaethant hefyd gynnig gwahodd arbenigwyr pwnc i rannu eu dealltwriaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. I sicrhau bod y cynnig yn cael sylw priodol, argymhellwyd y dylai'r mater gael ei godi gyda'r grŵp goruchwylio newydd ar gyfer Atgyfnerthu Diogelu ac Iechyd, a fyddai'n integreiddio'r prosiect yn strwythur gweithredol y GIG.

---

**Daeth y cyfarfod i ben**

**Gweithredu**

Creu arddull mewnol ar gyfer tracio'r cynllun gwaith, a'i symleiddio ar gyfer defnydd parhaus gan y Bwrdd **DM ac EL**

Diweddaru dogfen sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol drwy wneud y newidiadau a argymhellwyd **EL**

Egluro'r amserlen ar gyfer pryd y bydd yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ar gael **TY**